

## Testunau Llenyddol Eisteddfod Llandudoch (Mai 18fed, 2019)

**Beirniad** : Y Prifardd Gruffydd Eifion Owen, Caerdydd

Cyfansoddiadau i ddwylo'r Ysgrifennydd Llên – Mrs Melrose Thomas, Dychwelfa, Heol Finch, Llandudoch, Aberteifi, Sir Benfro SA43 3EA erbyn **Ebrill 12fed, 2019**.

Derbynnir cynnyrch trwy e-bost o'i anfon at [llandudoch@steddfota.org](mailto:llandudoch@steddfota.org) - c cofiwch gynnwys enw a manylion cyswllt (ffôn neu gyfeiriad), os gwelwch yn dda - ni fydd y cynnyrch yn cael ei dderbyn i'r gystadleuaeth heb y wybodaeth yma.

**Dysgwyr: Ysgrifennu darn – Fy hoff lun/ffotograff. (Gwobr o £15.00 ym mhob categori)**

- Lefel Mynediad (hyd at 150 o eiriau)
- Lefel Sylfaen (hyd at 250 o eiriau)
- Lefel Canolradd (hyd at 350 o eiriau)
- Lefel Uwch a Phrofiadol (hyd at 500 o eiriau)
  
- Limrig yn cynnwys y llinell : "Fe es i un diwrnod i'r ffair". 1af, £10.00

### leuenctid

- Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc ar gyfer cystadleuwyr hyd at 21 oed: – 2 ddarn cyferbyniol o lenyddiaeth greadigol ar unrhyw ffurf. Testun – agored. Gwobr : Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc a £30.00
- Darn o ryddiaith 11-16 oed – Drws. 1af, £10.00
- Darn o farddoniaeth 11-16 oed – Llwybrau. 1af, £10.00
- Darn o ryddiaith 16 a than 26 oed – Drws. 1af, £10.00
- Darn o farddoniaeth 16 a than 26 oed – Llwybrau. 1af, £10.00

### Agored

- Y Gadair: Cerdd, neu gasgliad o gerddi, caeth neu rydd, hyd at 100 o linellau - 'Amser' neu 'Ogof'. Gwobr – cadair fach gywrain a £75.
- Telyneg : Anrheg. 1af, £15.00
- Soned : Stori. 1af, £15.00
- Pedwar pennill telyn neu bedwar triban i bedwar aderyn. 1af, £15.00
- Englyn : Baner. 1af, £15.00
- Cywydd hyd at 18 llinell yn seiliedig ar unrhyw ddihareb Gymraeg. 1af, £15.00
- Cerdd hyd at 30 llinell mewn cynghanedd: Newid. 1af, £15.00
- Limrig yn cynnwys y llinell: "Pan welais pwy oedd ar y llwyfan. 1af, £15.00"
- Cân Ddigrî hyd at 30 llinell : Y dathliad. 1af, £15.00
- Stori fer yn ymwneud â'r thema "'Chwilio" . 1af, £15.00
- Cystadleuaeth CLEBRAN(Papur Bro'r Preseli) – erthygl addas i'w chyhoeddi mewn papur bro. . 1af, £20.00
- Ysgrifennu geiriau emyn o ddathliad. . 1af, £15.00